# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 22 Hydref 2024, am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Julie Matthews, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Chris Evans, Bobby Feeley, ac Andrea Tomlin

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT) a Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE); Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (GO); Rheolwr Asedau Cyfleusterau ac Asedau (DR); Rheolwr Asedau (BW); Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau (PB); Rheolwr Darpariaeth Gwasanaeth - Refeniw a Budd-daliadau (LG); Partneriaid Busnes TGCh (DDB a ML), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ ac ED [Gweddarlledu])

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

### 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Medi 2024.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 5 DARPARIAETHAU CODI FFIOEDD AC AWDURDOD DIRPRWYEDIG - CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL AR GYFER TRINIAETHAU ARBENNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Alan James adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Arbennig newydd a dirprwyo pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad.

Rhoddwyd cefndir i'r fframwaith cyfreithiol oedd â'r nod o wella a chynnal safonau atal a rheoli haint yn y diwydiant triniaethau arbennig a sicrhau iechyd a diogelwch cleientiaid ac ymarferwyr. Roedd strwythur ffioedd ar gyfer y cynllun newydd wedi cael ei gytuno'n genedlaethol ac roedd wedi'i gyfrifo i sicrhau cysondeb yn y costau i fusnesau ac adfer costau i awdurdodau lleol. Byddai'r ffioedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd manylion y gweithgareddau oedd yn cael eu cynnwys yn y cynllun, y strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol a'r swyddogaethau arfaethedig i'w dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth ynghlwm i'r adroddiad.

Gofynnodd y Cabinet nifer o gwestiynau, yn enwedig o ran costau a gallu'r Cyngor i wneud y dyletswyddau ychwanegol a sicrhau cydymffurfiaeth, ynghyd â materion yn codi o'r Asesiad o Effaith ar Les i leihau'r effaith ar fusnesau.

Ymatebodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i gwestiynau fel a ganlyn:

- ni fyddai staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i wneud y gwaith, fyddai'n cael ei rannu rhwng y timau trwyddedu a gwarchod y cyhoedd
- byddai rhywfaint o gostau sefydlu cychwynnol a byddai adolygiad yn cael ei gynnal ar ôl blwyddyn ar yr amser a dreuliwyd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd (sy'n cael ei amcangyfrif ar hyn o bryd) i sicrhau bod costau'n cael eu hadfer, ynghyd ag adolygiadau pellach bob tair blynedd
- byddai'r eiddo/ymarferwyr hynny sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun newydd a byddai cyswllt yn cael ei wneud gydag eraill fyddai angen trwydded efallai; roedd gwaith hefyd ar y gweill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y cynllun newydd a byddai pob busnes yn cael archwiliad pellach o fewn cyfnod y drwydded o dair blynedd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd
- rhoddwyd mwy o fanylion am effaith bosibl y ffioedd newydd ar fusnesau, yn enwedig y rhai ble roedd elfen triniaethau arbennig eu busnes yn fychan ac felly nad oeddent o bosibl yn hyfyw yn ariannol o'r herwydd
- roedd busnesau wedi cymryd rhan yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r rheoliadau newydd ac roedd y Cyngor wedi annog busnesau'n weithredol i adrodd yn ôl fel rhan o'r broses honno.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol i'r swyddogion am eu gwaith caled a thynnodd sylw at bwysigrwydd y ddeddfwriaeth newydd o ran iechyd cyhoeddus a gwarchod y cyhoedd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

(a) *mabwysiadu'r strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Triniaethau Arbennig newydd fel nodir yn Nhabl 1 Atodiad 2;*

*(b) dirprwyo'r swyddogaethau o dan y Rheoliadau newydd i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad fel y nodir yn Atodiad 3;*

*(c) awdurdodi Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i ddiwygio'r ffioedd a'r taliadau yn unol â'r cynllun statudol, fel bo'n briodol, o hyn ymlaen, a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 6 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU 2024 – 2029

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis y Strategaeth Rheoli Asedau 2024 – 2029 sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru, ar gyfer ei fabwysiadu. Roedd y Strategaeth Rheoli Asedau presennol wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 ac roedd yn hen bryd ei adolygu.

Nod y Strategaeth Rheoli Asedau newydd yw sicrhau bod y cynlluniau asedau a'r deilliannau a geisir yn cyd-fynd â Themâu Strategol y Cyngor fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol i sicrhau bod ein hasedau eiddo yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn. *Tynnwyd sylw at yr egwyddor sylfaenol ar gyfer y Strategaeth newydd fel a ganlyn -*

*"Byddwn yn darparu'r asedau cywir, yn y lle cywir, ac yn y cyflwr cywir i fodloni anghenion darparu gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol, gan ystyried pwy sydd orau i fod yn berchen a gweithredu bob ased a chyfleoedd ar gyfer cydweithio."*

Mae pedair blaenoriaeth wedi'u dynodi yn y Strategaeth newydd i gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a chynhaliwyd ymgynghoriad trylwyr ar lefel swyddogion ac aelodau. Mae canlyniadau'r broses honno yn yr adroddiad. [Er cywirdeb, roedd y Strategaeth wedi cael ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 12 Medi ac nid ar 12 Mai fel y nodwyd yn yr adroddiad.]

Arweiniodd y Pennaeth Gwasanaeth y Cabinet drwy'r adroddiad a'r atodiadau gan bwysleisio pwysigrwydd y ddogfen a gwaith caled y rhai oedd yn rhan o'r tîm Asedau.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Gwasanaeth i gwestiynau fel a ganlyn –

- cytunwyd i gynnwys cyfeiriad at y buddsoddiad ysgol newydd yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ym mharagraff 7.1.1 y Strategaeth newydd cyn ei gyhoeddi
- cyllid a gallu fyddai'r prif gyfyngiadau wrth gyflawni'r Strategaeth newydd
- roedd y Strategaeth yn nodi'r canlyniadau a fwriadwyd a byddai cydweithio o fewn y Cyngor a chyda partneriaid i ddenu mewnfuddsoddiad a gwneud y

mwyaf o gyfleoedd; roedd y Bloc Toiledau yng Nghorwen yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft i ddangos manteision dull o'r fath

- cyfeiriwyd at gymhlethdodau cyllideb llywodraeth leol a chadarnhawyd na fyddai'n bosibl gwerthu asedau i dalu am gostau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, gellid defnyddio unrhyw incwm a gafwyd wrth werthu asedau, megis Caledfryn yn Ninbych, i ariannu cynlluniau cyfalaf eraill yn y Cyngor, ac roedd hyn yn cael ei ystyried
- roedd adnoddau ac asedau, yn cynnwys gwaredu, yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan y Grŵp Rheoli Asedau, oedd ar agor i bob Cynghorydd fynychu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau 2024 – 2029 (Atodiad 1 yr adroddiad), a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 7 PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI / CARTREFI GWAG HIRDYMOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo polisi'r Cyngor i godi Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi / Cartrefi Gwag Hirdymor ar gyfer 1 Ebrill 2025 a chymeradwyo'r amserlen arfaethedig i adolygu'r polisi ar gyfer 2026/27.

Atgoffwyd y Cabinet am y polisi codi tâl a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Medi 2023, oedd yn golygu, o 1 Ebrill 2025 y byddai 150% yn cael ei godi ar ben y Dreth Cyngor safonol am y ddau fath o eiddo oedd wedi bod yn wag am lai na 5 mlynedd a 50% ychwanegol am eiddo oedd wedi bod yn wag a heb eu dodrefnu am 5 mlynedd neu fwy. Nid oedd y polisi yn cynnwys 2026/27 ymlaen ac roedd cynlluniau ar gyfer adolygiad i ddeall effaith y polisi cyfredol i lywio penderfyniadau yn y dyfodol wedi cael eu nodi yn yr adroddiad, ynghyd ag amserlenni. Pwysleisiwyd eto mai pwrpas y premiwm yw cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych a chynnal a meithrin cymunedau cynaliadwy.

Roedd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio, y Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau a'r Rheolwr Darparu Gwasanaeth - Refeniw a Budd-daliadau yn bresennol.

Roedd y Cabinet yn ystyried bod y cynllun gweithredol a nodwyd yn yr adroddiad yn ddull synhwyrol, â strwythur da i roi cyfle i bob budd-ddeiliad, yn cynnwys y cyhoedd, i ymateb fel rhan o'r broses. Trafododd y Cabinet fanylion yr adroddiad â swyddogion gan ofyn cwestiynau am y mecanweithiau adolygu a phwerau dewisol y Cyngor i hepgor unrhyw bremiwm mewn amgylchiadau penodol. Manylodd y swyddogion ar y fethodoleg adolygu, fyddai'n cynnwys dadansoddi'r cyfoeth o wybodaeth a gafwyd ac effaith y newid a gwersi a ddysgwyd gan awdurdodau lleol eraill, gan gymharu data a pholisi gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i roi adolygiad cynhwysfawr i arwain y polisi yn y dyfodol. Rhoddodd y swyddogion enghreifftiau hefyd o achosion ble gellid defnyddio pwerau dewisol, a phwysleisiwyd

bod pob achos yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun ac y byddai dull ymarferol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi unigolion pan fo'n bosibl. Cadarnhaodd rhai aelodau eu bod wedi gweld drostynt eu hunain pa mor barod oedd swyddogion i ystyried achosion unigol yn ofalus. Nodwyd hefyd bod arweiniad Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddull ymarferol gan awdurdodau lleol wrth adolygu'r premiwm ac ystyried rhyddhad dewisol a byddai dadansoddi data yn helpu i lywio argymhellion posibl o ran eithriadau i'r premiwm yn y dyfodol. Roedd hi'n bwysig bod digon o amser yn cael ei roi i'r polisi esblygu er mwyn deall yn llawn beth yw'r effeithiau a sicrhau y gellir diwygio'r polisi yn seiliedig ar y data sydd ar gael, a dyna'r rheswm am y dull a gymerwyd yn y Cynllun Gweithredol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi a chymeradwyo polisi codi tâl y Cyngor ar gyfer 1 Ebrill 2025 fel y nodir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad, a*

*(b) cymeradwyo'r amserlen arfaethedig a nodir yn yr adroddiad i adolygu'r polisi ar gyfer 2026/27.*

## 8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 - 2027/28

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gofynnodd am i gynigion arbedion cynnar gael eu hystyried ar gyfer pennu cyllideb 2025/26.

Ni fu llawer o newid i'r dogfennau ers y fersiwn blaenorol ac nid oedd unrhyw newid i'r darlun cyffredinol. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa newid yn dilyn Cyllideb Llywodraeth y DU ar 30 Hydref 2024. O ran yr arbedion arfaethedig, roedd canlyniad cadarnhaol wedi bod i'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymateb i ddarparu gwasanaethau digartrefedd fyddai hefyd yn creu arbedion sylweddol.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio'r aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn cynnwys –

- y Cynllun Ariannol Tymor Canolig lefel uchel oedd yn cynnwys rhagamcaniadau presennol ar y gyllideb, ynghyd ag ystod o ragdybiaethau i roi amcangyfrif isel, canolig ac uchel pob pwysau ynghyd ag effaith amcangyfrifon o gynnydd i Dreth y Cyngor a chyllid gan Lywodraeth Cymru (Atodiad 2 i'r adroddiad)
- roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn crynhoi data hyd at ddechrau mis Hydref yn nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid a maint yr her ariannol (Atodiad 3 i'r adroddiad) ac roedd y prif bwyntiau wedi'u hamlygu yn yr adroddiad eglurhaol a'r newidiadau a wnaed i'r Strategaeth wedi'u hamlygu mewn melyn, a
- chynnydd ar gynigion arbed mewn gwasanaethau oedd yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith pennu cyllideb ar gyfer 2025/26 (Atodiad 2 i'r adroddiad).

Roedd llawer o'r gwaith yn canolbwyntio ar bennu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 a rhagwelwyd y byddai costau darparu gwasanaethau'n codi £18 miliwn. Roedd

cynnydd mewn cyflogau staff yn parhau'n bwysau ynghyd â phwysau sylweddol ar wasanaethau yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau oedd yn cael eu harwain gan alw, oedd yn sylweddol, a thu allan i reolaeth y Cyngor i raddau helaeth. Roedd rhagdybiaethau gweithredol wedi'u gwneud am setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar ostyngiadau ychydig yn negyddol a Threth y Cyngor ar tua 9%, oedd yn gadael bwlch a ragwelir yn y gyllideb o £12 miliwn, fyddai'n gofyn am arbedion sylweddol ar hyd a lled yr awdurdod er mwyn mantoli'r gyllideb. Roedd cynigion arbedion cynnar wedi cael eu dwyn ymlaen ac roedd llawer o waith yn dal ar y gweill i fodloni'r arbedion gofynnol. Roedd y rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn rhagweld bwlch o £15 miliwn yn 2026/27 a £14 miliwn yn 2027/28.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pennaeth Gwasanaeth am y trosolwg manwl ac roedd y dogfennau eisoes wedi cael eu trafod yn fanwl gan y Cabinet. Nodwyd bod Gweithdy ar Gyllideb y Cyngor wedi cael ei gynnal yn ddiweddar i bob aelod.

Roedd y prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol –

- rhoddwyd diweddariad ar y system ariannol newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar oedd yn disodli nifer o systemau gwahanol ac roedd yr elfen modiwl rhagolygon ariannol ar waith ers mis Medi. Roedd y system newydd yn newid mawr i ffordd y tîm o weithio a darparu gwybodaeth ariannol; byddai'r system yn parhau i gael ei mireinio ac roedd hyfforddiant a datblygu ar y gweill
- cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at osod Treth y Cyngor ym mis Chwefror ac y byddai preswylwyr yn disgwyl iawndal oherwydd y tarfu a achoswyd wrth gyflwyno'r system gwastraff newydd. Eglurodd y swyddogion fod Treth y Cyngor yn ariannu'r gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan y Cyngor ac nad oedd yn gysylltiedig â maes gwasanaeth penodol; roedd yn dreth yr oedd gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i'w gosod ac roedd gan y rhai sy'n cael gorchymyn Treth y Cyngor rwymedigaeth i'w dalu. Nid rhwymedigaeth gytundebol ydoedd y gellid rhoi iawndal i unigolion amdano. Cytunodd y swyddogion ailddosbarthu'r briff i aelodau oedd yn egluro'r sefyllfa o ran Treth y Cyngor ac a fyddai'n helpu'r aelodau ateb cwestiynau gan breswylwyr
- er yr eglurwyd nad oedd cyswllt rhwng y problemau wrth gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff newydd â Threth y Cyngor, cyfeiriwyd at y mater ar wahân, sef y gwasanaeth gwastraff gwyrdd, oedd yn wasanaeth yr oedd cwsmeriaid yn tanysgrifio iddo a thalu amdano, a lle'r oedd tarfu wedi bod ar gasgliadau rhai cwsmeriaid. Roedd y mater hwnnw'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, a byddai mwy o wybodaeth yn cael ei ddosbarthu i aelodau ar sefyllfa'r Cyngor yn dilyn hynny
- roedd yr amcangyfrifon o ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24 wedi bod yn ddigonol ar gyfer y gyllideb ac roeddent wedi creu arbediad i ariannu gorwariant mewn gwasanaethau. Darparwyd y sefyllfa ddiweddaraf ar ddyfarniad cyflog 2024/25 i staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu a daethpwyd i gytundeb ar y dyfarniad i athrawon ond roedd trafodaethau'n parhau o ran staff nad ydynt yn addysgu. Os na fyddai'r amcangyfrif dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu yn ddigonol, byddai'n rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn os na fydd cyllid arall ar gael, fyddai hefyd yn effeithio ar y gyllideb sylfaenol yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*

(a) *cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig sydd yn Atodiadau 1 a 3 yr adroddiad;*

(b) *nodi'r cynigion arbedion cynnar ar gyfer pennu cyllideb 2025/26 fel y nodir yn Atodiad 2, a*

(c) *nodi'r gwaith parhaus i bennu cyllideb gytbwys yn 2025/26.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad misol a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 oedd £271.021 miliwn (£250.793 miliwn yn 2023/24)
- rhagwelwyd y byddai tanwariant o £400,000 mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth
- arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau ar gyfer cyllideb 2024/25 (£10.384 miliwn) a chynnydd ar gyflawni arbedion a gymeradwywyd oedd yn parhau i gael eu holrhain/monitro
- y wybodaeth ddiweddaraf am Ysgolion, y Cyfrif Refeniw Tai a Rheoli'r Trysorlys.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Rhagwelir tanwariant o £400,000 (ac eithrio ysgolion) o'i gymharu â gorwariant o £240,000 y mis diwethaf oherwydd diwygio'r model ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a lleihau gwariant ar lety brys. Roedd gwasanaethau'n gyffredinol yn parhau i orwario ac roedd meysydd o orwariant gan wasanaethau'n cael eu mantoli gan danwariant ar gyllidebau corfforaethol yn cynnwys tâl ac ynni. Roedd meysydd risg uchel yn cynnwys lleoliadau preswyl mewn Gwasanaethau Plant, gofal a gomisiynir mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chludiant Ysgolion. Roedd yr offeryn olrhain arbedion wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad yn ogystal â throsolwg o'r cynnydd. Roedd 82% o'r arbedion a ragwelwyd wedi cael eu cyflawni ar brosiectau mawr a 90% o arbedion heb fod yn strategol. Rhagwelir diffyg cyffredinol o £2.7 miliwn i ysgolion ac roedd gwaith ar y gweill gyda'r ysgolion i geisio lleihau faint o falansau sy'n cael eu defnyddio.

Nododd y Cabinet, yn ychwanegol i'w adroddiad misol rheolaidd, roedd cyfarfod cyllideb wedi cael ei gynnal yn ddiweddar i bob aelod a byddai trafodaeth gynnar am y gyllideb yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 12 Tachwedd. Roedd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio hefyd wedi gwneud trefniadau i gyfarfod â'r holl grwpiau gwleidyddol ar wahân i drafod y gyllideb ac roedd yr Arweinydd wedi pwysleisio mor bwysig oedd i gymaint o aelodau â phosibl fod yn y trafodaethau hynny am y gyllideb er mwyn rhoi eu mewnbwn i'r broses. Roedd y Cynghorydd Julie Matthews hefyd yn awyddus i sicrhau bod ymgysylltu priodol yn digwydd â'r cyhoedd ar y broses o bennu'r gyllideb. Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid ac

Archwilio at gymhlethdodau'r gyllideb llywodraeth leol a'r gwaith gyda'r Grŵp Cyfathrebu ar y Gyllideb ynghyd â chynlluniau i gyfathrebu â'r cyhoedd o ran codi ymwybyddiaeth am gyllid y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir drwy ffyrdd megis y cyfryngau cymdeithasol, fideos ar wefan y Cyngor a ffeithluniau ynghyd ag ymgynghori ar gynigion ar y gyllideb yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.*

**10 SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH GOFAL CYMDEITHASOL NEWYDD - DYFARNU CONTRACT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton yr adroddiad ar y cyd â'r Cynghorwyr Julie Matthews a Diane King yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo dyfarnu'r contract a chyfranogiad parhaus yn y rhaglen genedlaethol cysylltu gofal. Roedd yr adroddiad yn cynnwys atodiadau cyfrinachol gyda gwybodaeth ariannol a gofynnwyd i'r Cabinet fynd i sesiwn breifat os oeddent eisiau trafod y manylion ariannol.

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo cyfranogiad Sir Ddinbych mewn proses gaffael ar gyfer system rheoli gwybodaeth gofal cymdeithasol newydd yn seiliedig ar yr Achos Busnes a gyflwynwyd yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2024. Rhoddwyd manylion y broses dendro fel rhan o glwstwr o chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ynghyd â'r broses werthuso leol a sesiynau cymedroli. Bydd gan gontractau a ddyfernir gyfnod cychwynnol o 7 mlynedd, gyda'r opsiwn i'w hymestyn fesul 2 flynedd hyd at uchafswm o 21 mlynedd. Roedd crynodeb o gostau'r tendr a chopi drafft o'r dyfarniad wedi cael eu cynnwys yn yr atodiadau cyfrinachol.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Phartneriaid Busnes TGCh yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y broses drylwyr a gynhaliwyd yn fewnol, gyda phartneriaid rhanbarthol a'r broses gaffael genedlaethol, gydag ymgysylltiad gan gydweithwyr TG arbenigol a'r gwasanaeth fyddai'n defnyddio'r system newydd os bydd yn cael ei chaffael. Pwysleisiodd y Cynghorydd Julie Matthews mor bwysig oedd cael system newydd a thynnodd sylw at y broses gaffael drylwyr a gynhaliwyd a'r gwasanaeth gwell fyddai preswylwyr yn ei gael o ganlyniad i'r system newydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo'r adroddiad Dyfarnu Contract sydd ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad, a*

*(b) parhau i gefnogi cyfranogiad Sir Ddinbych yn y rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal.*

**11 RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w hystyried.

Nododd y Cabinet na fydd yr eitem ar Drefniadau Llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn barod mewn pryd i'w chyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet*.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am.